## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0648(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008

**At Sandy Mewies:**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r cwestiwn y gwnaethoch chi ei ofyn am arian y Loteri yn ystod sesiwn gwestiynau Prif Weinidog Cymru ar 29 Ionawr 2008. Roedd yn destun pryder ichi mai dim ond £7 miliwn o'r gyllideb yr oedd y Gronfa Loteri Fawr wedi'i ddyrannu ar gyfer un o'i rhaglenni cyllido, Cam wrth Gam, a bod dim o'r cyllid hwnnw wedi'i ddyrannu ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae Cam wrth Gam yn un o nifer o raglenni cyllido a ddatblygwyd gan y Gronfa Loteri Fawr i'w galluogi i ddilyn y cyfarwyddiadau polisi a roddwyd iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Agorodd y rhaglen ar gyfer ceisiadau ym Mehefin 2006 ac roedd yn targedu prosiectau arloesol a oedd yn galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen er mwyn rheoli eu bywydau a chyfrannu at eu cymunedau neu ailgydio mewn dysgu, gwirfoddoli neu gyflogaeth. Roedd prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyd yn gymwys i gael eu hystyried gyda chyllid ar gael am rhwng tair a phum mlynedd.

Fel gyda nifer o raglenni a gyllidir gan y Loteri, roedd dwy ran i broses gais Cam wrth Gam. Dim ond y prosiectau hynny a oedd yn llwyddiannus ar y cam cyntaf a wahoddwyd i gyflwyno ceisiadau manylach ar gam dau. Yn achos Cam wrth Gam, dim ond 23 o brosiectau oedd yn bodloni meini prawf cyllid sylfaenol arloesi ac ymgysylltu â'r rhannau o gymdeithas sydd anoddaf eu cyrraedd.

Roedd y nifer fach o geisiadau a lwyddodd i gyrraedd cam dau yn destun pryder i'r Gronfa Loteri Fawr, a threfnodd gyfres o sesiynau briffio a chyfarfodydd un-i-un gydag ymgeiswyr cam dau mewn ymgais i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cyllid. Yn anffodus, pan gyfarfu Pwyllgor y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru i ystyried ceisiadau cam dau, roedd yn amlwg na chafodd hyn yr effaith yr oedd wedi gobeithio amdani. Dim ond nifer fach o'r prosiectau oedd yn cydymffurfio â'r meini prawf gofynnol ac, o ganlyniad, nid oedd yn bosibl i'r Gronfa Loteri Fawr ddyrannu'r gyllideb lawn ar gyfer y rhaglen.

Roedd hyn yn siom fawr i Bwyllgor Cronfa Loteri Fawr Cymru ac maent yn parhau yn eu hymrwymiad i sicrhau y caiff y £7 miliwn na ddefnyddir ei ailfuddsoddi yn Nghymru. Mae'r Gronfa Loteri Fawr, bellach, yn ystyried sut orau i reoli'r ailfuddsoddiad hwnnw mewn ffordd a fydd yn caniatáu iddynt gyflawni byrdwn rhaglen Cam wrth Gam. Ni chaiff unrhyw ran o'r arian hwn ei ddefnyddio i gyflawni ymrwymiad y Gronfa Loteri Fawr i Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Yn wir, nid yw'n ofynnol i unrhyw un o ddosbarthwyr y Loteri yn y DU gyfrannu o gwbl i Gemau 2012 tan Chwefror 2009 fan gyntaf.

Fe holoch chi hefyd am y ffaith bod cyn lleied o brosiectau yng Ngogledd Cymru yn derbyn cyllid drwy raglen Cam wrth Gam. Rhaglen genedlaethol oedd Cam wrth Gam, yn cael ei rhedeg ar sail cystadleuaeth agored. Nid oedd unrhyw ddyraniadau daearyddol ac felly nid oedd mantais i unrhyw ranbarth yng Nghymru. Yn yr achos hwn, nid oedd unrhyw rai o'r prosiectau o Ogledd Cymru yn gymwys o dan y meini prawf cyllid, er bod dau brosiect cenedlaethol wedi derbyn cyllid, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, ac y bydd y rheini o fudd i Gymru gyfan.

Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch am raglen Cam wrth Gam neu unrhyw un arall o'r rhaglenni a weinyddir gan y Gronfa Loteri Fawr, neu unrhyw wybodaeth am eu meini prawf cyllido, byddent yn fwy na pharod i drafod hyn gyda chi.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0649(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008**

**At Alun Cairns:**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gennych yn ystod sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 29 Ionawr ynghylch addysgu llythrennedd emosiynol mewn 'gwersi rhydd'.

Fel y gwyddoch, nid oes maes pwnc penodol yn y cwricwlwm yn ymwneud â llythrennedd emosiynol. Fodd bynnag, mae'n rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac mae'n ofynnol yn statudol i ysgolion gynllunio a darparu ABCh eang a chytbwys er mwyn diwallu anghenion penodol y dysgwyr. Y Fframwaith ABCh anstatudol yw'r ddogfen allweddol a ddefnyddir gan ysgolion yng Nghymru i ddatblygu a chynllunio eu darpariaeth ABCh.

Mae'r Fframwaith ABCh diwygiedig ar gyfer disgyblion 7-19 oed yng Nghymru, a fydd yn cael ei weithredu o fis Medi 2008, wedi cryfhau'r pwyslais ar iechyd a lles emosiynol ac wedi creu cyfleoedd penodol i ysgolion fynd ati i ddatblygu dealltwriaeth plant a phobl ifanc.

Mae gan ysgolion yr hyblygrwydd i bennu cynnwys eu rhaglenni ABCh eu hunain a'r modd y'u darperir, fel y rhaglen y cyfeiriwyd ati yng Ngholeg Cymunedol Michaelston. Mae gan nifer o ysgolion cynradd raglenni amser cylch erbyn hyn, sy'n mynd i'r afael â'r agweddau emosiynol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio ystod o strategaethau ysgol gyfan i fagu hyder dysgwyr.

Diben llythrennedd emosiynol yw helpu dysgwyr i ddeall a rheoli eu teimladau, gweithio gyda'i gilydd, ysgogi eu hunain a dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu problemau. Nid yw hyn yn rhywbeth y dylid ei wneud mewn 'gwersi rhydd', ac nid oes gennym dystiolaeth bod hyn yn digwydd.

Byddwch yn falch o glywed fod gwefan wedi'i datblygu sy'n cynnig canllawiau ar ABCh, er mwyn helpu ysgolion yng Nghymru i gynllunio a darparu ABCh. Mae'r wefan yn cynnwys astudiaeth achos sy'n disgrifio arferion effeithiol o ran datblygu ac olrhain lles emosiynol dysgwyr.